# Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol i'r Rhieni

## 2021-22



# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I RHIENI 2021 – 2022

Annwyl rieni a gofalwyr

Mae'n bleser cyflwyno adroddiad blynyddol blwyddyn academaidd 2021/22 i chi. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg i chi o waith yr ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf, ein llwyddiannau, a'r amcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae wedi bod yn flwyddyn heriol ond llwyddiannus arall i'n staff, llywodraethwyr a disgyblion. Tra bod y pandemig wedi lleddfu, parhaodd Covid i achosi llawer o anawsterau – diolch i holl staff yr ysgol a weithiodd yn ddiflino i gadw pethau i fynd yn esmwyth ac i leihau'r tarfu ar addysg eich plant.

Fel pob blwyddyn, fe wnaethom ffarwelio ag aelodau gwerthfawr o dîm Coed-y-Gof ar ddiwedd y Tymor wrth iddynt symud ymlaen i swyddi newydd neu i'r Brifysgol. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i gyn-gadeirydd y Llywodraethwyr, Mr Paul Harris, ac ymadawodd ar ddiwedd Tymor yr Haf. Bu Paul yn Gadeirydd cadarn ac ysbrydoledig, gan gynnig Arweinyddiaeth a chymorth i'r ysgol ar bob adeg. Pob lwc i ti yng ngogledd Cymru Paul! Dymunwn y gorau i Mr D Rees, Mr K Jones, Miss E Coles, Ms Lisa Ambrose, Miss G Parker, Miss C Cooper, Miss C Lane, Mr G Marshall, Miss M Bird, Miss L Adams-Jones a Miss C James yn eu rolau newydd. Diolch yn fawr iawn i chi am eich cyfraniad i'r ysgol.

Eleni, rydym ni fel llywodraethwyr wedi parhau â'n cyfrifoldebau i gefnogi'r ysgol, codi safonau, a gofyn cwestiynau heriol lle bo angen er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i ddatblygu ei botensial i'r eithaf. Bydd hyn wrth gwrs yn parhau yn y flwyddyn nesaf a hoffwn ddiolch i'r llywodraethwyr sy'n rhoi'n hael o'u hamser i wasanaethu'r ysgol.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r pennaeth, Mrs Carys Prytherch, y staff a'r arweinwyr am eu gwaith diddiwedd i ddarparu gofal, cefnogaeth ac arweiniad i wella lles ac addysg ein plant. Diolch hefyd i chi, rieni a gofalwyr ein disgyblion, sy'n gweithio mewn partneriaeth â ni er lles eich plant a'r ysgol gyfan. Rhaid diolch hefyd i'n disgyblion bendigedig!

Edrychwn ymlaen at adeiladu ar lwyddiannau Coed-y-Gof ac at flwyddyn gyffrous gyda gweithrediad y Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn croesawu adborth, sylwadau ac awgrymiadau gan ein cymuned ysgol felly cysylltwch os oes gennych unrhyw beth i'w rannu.

Gyda dymuniadau gorau,

Llinos Bradbury,
Cadeirydd y Llywodraethwyr.



## Y CORFF LLYWODRAETHU

Mae'r Llywodraethwyr yn gweithio gyda Phennaeth a Staff yr ysgol i sicrhau bod yr ysgol yn codi safonau ac yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu llwyddiannus i'r plant.

Mae'r Corff Llywodraethol yn helpu i sicrhau bod yr ysgol yn atebol i rieni, y gymuned leol a'r awdurdod lleol ac yn gwneud hynny mewn ffordd dryloyw ynghylch y canlyniadau a'r ffordd y mae ei hadnoddau'n cael eu dyrannu.

Mae'r Corff yn gweithredu system o is-bwyllgorau, sydd yn adrodd yn ôl i'r corff llawn bob tymor. Mae pob is-bwyllgor yn rheoli, cefnogi a goruchwylio gwahanol feysydd o fywyd ysgol Coed-y-Gof. I fod yn effeithiol, fel arfer cynhelir ymweliadau rheolaidd â'r ysgol fel teithiau dysgu a chyfarfodydd Llywodraethwyr cyswllt ag athrawon, ynghyd â'r cyfle i rannu hyfforddiant gyda staff. Yn amlwg, nid yw hyn wedi digwydd eleni.

Mae adroddiad ariannol llawn ynghlwm yn atodiad 1.

## AELODAU'R CORFF 2021-22

| | |
|---|---|
| Paul Harris | Cadeirydd (Cymuned) |
| Elin Stock | Is-Gadeirydd (ALl) |
| Carys Prytherch | Pennaeth |
| Sian Clements | Rhiant Llywodraethwr |
| Emma Britany | Rhiant Llywodraethwr |
| Jennifer Morgan | Rhiant Llywodraethwr |
| Llinos Bradbury | Rhiant Llywodraethwr |
| Gwag | Rhiant Llywodraethwr |
| Gwag | Llywodraethwr Awdurdod Lleol |
| Ceri Landers | Llywodraethwr Awdurdod Lleol |
| Vacant | Llywodraethwr Awdurdod Lleol |
| Elin Derrick | Llywodraethwr Cymunedol |
| Erin Ynyr | Llywodraethwr Cymunedol |
| Paul Harris | Llywodraethwr Cymunedol |
| Neil Cole | Llywodraethwr Cymunedol |
| Alex Lewis | Athro |
| Laura Casey | Athro |
| Gwag | Staff |
| Eve Smith | Clerc |




Aelodau'r Cyngor Ysgol yn Senedd Ieuenctid Caerdydd

## STRWYTHUR STAFFIO 2021-22

| | |
|---|---|
| Carys Prytherch | Pennaeth (Tîm Arwain) |
| Dewi Rees/Mr Alex Lewis | Dirprwy Bennaeth; Arweinydd CA2 (Tîm Arwain) |
| Laura Casey | CADY (Tîm Arwain); Dosbarth Y Cwtch 0.4 |
| Alex Lewis (Dewi Rees)0.4, Elin Jones 0.6 | Athro Bl 5/6 Masarnen |
| Sara Cotton | Athro Bl 5/6 Castanwydden |
| Sara Edwards | Athro Bl 5 Sycamorwydden |
| Emyr John | Athro Bl 3/4 Gwernen |
| Nia Norman | Athro Bl 3/4 Helygen |
| Manon Davies | Athro Bl 3/4 Collen |
| Fran Davies | Athro Bl 1/2 Derwen / Arweinydd Cyfnod Sylfaen (Tîm Arwain) |
| Claire Tynan | Athro Bl 2 Onnen |
| Elin Coles | Athro D/Bl 1 Bedwen |
| Aimee Meyer | Athro Dosbarth Derbyn Ywen |
| Non Rivers | Athro CPA |
| Alun Evans | Athro CPA 0.8; Cwtch 0.2 |
| Jess Murphy | Uwch-gynorthwyydd Cynnal Dysgu |
| Gareth Roberts<br>Carly Bishop<br>Jess Jekeb<br>Cerys Isaacs<br>Hayley Rees<br>Lauren Williams<br>Katie Sheehan<br>Jade James<br>Catrin Kemp<br>Gwen Parker<br>Cerys Cooper<br>Gareth Marshall | Cynorthwywyr Cynnal Dysgu |
| Natalie Owen<br>Kelly Page | Swyddogion gweinyddol |
| Ron Burford | Gofalwr |
| Vicky Dunn<br>Sarah Davison<br>Julie Baker | Goruchwylwyr amser cinio |



## STRWYTHUR Y DIWRNOD YSGOL A DYDDIADAU TYMOR

| | |
|---|---|
| 08.40 | Clwb brecwast |
| | Ysgol yn agor i ddisgyblion |
| 08.55 | Ysgol yn dechrau |
| 10.00 – 10.20 | Egwyl Cyfnod Sylfaen |
| 10.20 – 10.40 | Egwyl bl 3 & 4 |
| 10:40 – 11:00 | Egwyl Bl 5 & 6 |
| 11.45 – 12.45 | Amser cinio Cyfnod Sylfaen |
| 12.15 – 1.15 | Amser cinio Cyfnod Allweddol 2 |
| 1.45 – 2.00 | Amser egwyl bl 3 & 4 |
| 2:00 – 2:15 | Amser egwyl Cyfnod Sylfaen |
| 3:10 | Ysgol yn gorffen |

## DYDDIADAU TYMOR 2021–22

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd Tymor | Nifer o ddiwrnodau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Gorffen | | |
| **Hydref** | 02.09.21 | 25.10.21 | 29.10.21 | 17.12.20 | 72 |
| **Gwanwyn** | 05.01.22 | 21.02.22 | 25.02.22 | 08.04.22 | 63 |
| **Haf** | 25.04.22 | 30.05.22 | 03.06.22 | 22.07.22 | 60 |
| | | | | | 195 |

## DATA

Nid oedd unrhyw ofyniad i gasglu ac adrodd ar ddata cyrhaeddiad ar gyfer y flwyddyn 2021-22 oherwydd Covid.

## GWYBODAETH DISGYBLION ar gyfer 2021–22

- Nifer y disgyblion ar rôl = 268
- Nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim = 104 (39%)
- Nifer y disgyblion â datganiadau = 15
- Nifer y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ond dim datganiad = 14
- Nifer y gwaharddiadau parhaol yn y flwyddyn ysgol 2021-2022 = 0
- Nifer y gwaharddiadau tymor penodol yn y flwyddyn ysgol 2021-2022 = 70 (35 diwrnod)

## BLE AETH DISGYBLION BLWYDDYN 6?

| **Ysgol** | **Nifer** |
|---|---|
| Ysgol Plasmawr | 41 |
| Ysgol Gymunedol Gorllewin Caerdydd | 1 |
| | 42 |

## PRESENOLDEB 2021 – 2022

Nid oedd unrhyw ofyniad i adrodd data presenoldeb oherwydd COVID.

# CYNLLUN GWELLA YSGOL

| Blaenoriaeth 1: Datblygu Cwricwlwm cyffrous ac ysgogol sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd a phrofiadau, gan gynnwys datblygu darpariaeth yr Ysgol yn y Celfyddydau Mynegiannol. | |
|---|---|
| Meini Prawf Llwyddiant: | Crynodeb o weithgareddau: |
| ✓ Mae gweithdrefnau monitro'r ysgol yn dangos bod bob athro yn cynllunio themau ysgogol yn effeithiol.<br>✓ Mae gweledigaeth yr ysgol o ran y Cwricwlwm yn cael ei adlewyrchu yn y gwaith dosbarth.<br>✓ Mae holiaduron staff a disgyblion yn dangos bod y rhan fwyaf yn teimlo bod cyfloedd yn y Celfyddydau wedi gwella ers llynedd. | • Ymuno â Phrosiect Cwricwlwm clwstwr Plasmawr gan fynychu cyfarfodydd pythefnosol.<br>• Ail-lunio gweledigaeth yr ysgol o'r Cwricwlwm.<br>• Cyflwyno dysgu drwy ymholiad a chyflwyno newidiadau i'r cynllunio tymor canol. |
| Blaenoriaeth 2: Parch, Parodrwydd, perthyn: gwella'r ysgol fel amgylchedd dysgu, gan ddylanwadu ar barodrwydd y disgyblion i ddysgu a gwella eu parch tuag at eiddo ac eraill. | |
| Meini Prawf Llwyddiant: | Crynodeb o weithgareddau: |
| ✓ Mae crwydrau dysgu cyson yn dangos bod bob ystafell ddosbarth yn amgylchedd dysgu addas, gydag adnoddau dysgu yn hawdd i'w canfod.<br>✓ Mae holiaduron staff yn dangos bod rhan fwyaf y dysgwyr yn dangos parodrwydd i ddysgu, gwydnwch ac agwedd cadarnhaol tuag at eu gwaith ac eiddo. | • Ail-lunio Gwerthoedd a Gweledigaeth yr ysgol, gan weithio gydag ysgolion y clwstwr ac Ysgol Plasmawr.<br>• Parhau i wreiddio'r Pedwar Diben ym mywyd bob dydd yr ysgol.<br>• Cyngor Ysgol yn arwain ar gasglu barn am logo newydd ysgol.<br>• Holiadur disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i gasglu barn am ethos yr ysgol |
| Blaenoriaeth 3: Cynyddu defnydd y disgyblion o'r iaith Gymraeg tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, gan weithio tuag at Wobr Aur y Siarter Iaith. | |
| Meini Prawf Llwyddiant: | Crynodeb o weithgareddau: |
| ✓ Mae bron bob un o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn rhwydd yn y dosbarthiadau.<br>✓ Mae holiaduron staff a disgyblion yn dangos bod nifer o blant yn defnyddio'r iaith Gymraeg tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, gan gynnwys ar iard yr ysgol.<br>✓ Mae rhan fwyaf y rhieni yn deall manteision a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg ac yn cyd-weithio gyda'r ysgol wrth annog eu plant i ddefnyddio'r Iaith. | • Cynnwys y disgyblion yn y broses o ffurfio'n Gwerthoedd fel cymuned ysgol.<br>• Sicrhau bod themau'r ysgol yn cynnwys cyfeiriadau at Gymreictod a Chymru.<br>• Parhau i gynnig profiadau sy'n hyrwyddo Cymreictod trwy waith Siarter Iaith y Dreigiau. |
| Blaenoriaeth 4: Gweithredu'r Ddeddf ADY | |
| Meini Prawf Llwyddiant: | Crynodeb o weithgareddau: |
| ✓ Gall bob aelod o staff drafod eu rôl nhw yn ôl y ddeddf.<br>✓ Gall bob athro fynd ati i drefnu a chynnal cyfarfod PCP yn hyderus.<br>✓ Mae bob aelod o staff yn deall y broses o adnabod plentyn sydd â ADY. | • Disgyblion Blynyddoedd 1, 3 a 5 i symud at Gynlluniau Datblygu Unigol.<br>• Tracio cynnydd disgyblion sydd ar y gofrestr ADY ac ar y rhestr monitro mewn cyfarfodydd bob hanner tymor gyda'r athrawon dosbarth.<br>• Datblygu dealltwriaeth y staff o'r ddeddf ADY a chynyddu hyder wrth gynnal cyfarfodydd person canolog. |

## CWRICWLWM

Yn Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof, bwriadwn ddarparu cwricwlwm sydd yn:

- cynnig amgylchedd dysgu diogel a gofalgar yn seiliedig ar ymddiriedaeth rhwng disgyblion, rhieni a staff yr ysgol i sicrhau bod ein disgyblion yn profi awyrgylch cyson a gofalgar.
- cynnig cyfleoedd bywyd newydd, o fewn a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth fel bod ein disgyblion yn cyrraedd yr ysgol uwchradd wedi profi'r un math o brofiadau a gweddill y clwstwr.
- adeiladu hunangred ac uchelgais ein disgyblion fel eu bod yn sylweddoli bod pob drws yn agored iddynt, beth bynnag fo'u huchelgeisiau neu ddyheadau personol
- gynhwysol i sicrhau bod bob un disgybl yn cael mynediad llawn at gwricwlwm sydd yn hygyrch ac yn addas ar eu cyfer, a'u bod yn cael yr her a'r gefnogaeth angenrheidiol i gyrraedd ei lawn botensial
- dathlu amrywiaeth diwylliannol, ethnig a chrefyddol mewn Cymru fodern gan gynnwys hanes Caerdydd a digwyddiadau lleol.
- hyrwyddo hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru gan gynnwys manteision yr iaith Gymraeg wrth flaenoriaethu'r iaith yn yr ysgol a darparu profiadau Cymreig tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.
- sicrhau bod rhieni yn chwarae rhan lawn ym mywydau ysgol eu plant wrth gynnig polisi "drws-agored" yn ogystal â chynnig gweithgareddau ysgol oddi ar y safle, mewn lleoliadau sydd yng nghanol y gymuned.



Disgyblion Bl 6 yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Dydd y Cofio, Mynwent y Gorllewin

## YMATEB I COVID-19

Roedd gan yr ysgol asesiadau risg gadarn wrth weithredu'n ddiogel o dan reoliadau Covid. Er nad oedd angen cau'r ysgol gyfan am gyfnodau hir oherwydd Covid, rhoddwyd 2 ddiwrnod o gynllunio ar ddechrau Ionawr i sicrhau bod y mesuriadau cywir mewn lle.

## POLISÏAU YSGOL

Mae polisïau ysgolion yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn gyson yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, awdurdod addysg Cyngor Sir Caerdydd Bro Morgannwg a Chonsortiwm Canol De. Mae'r polisïau cyfredol ar wefan yr ysgol, ysgolcoedygof.com.

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ALNCo, Mrs Casey, yn sicrhau bod gofynion penodol pob plentyn yn cael ei ddiwallu. Mae Cynorthwywyr Cynnal Dysgu hefyd yn gweithio gyda phlant o bob gallu o dan arweiniad yr athro dosbarth ac ALNCo. Elin Stock yw'r llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb am y maes ac o dan amgylchiadau arferol, byddai'n ymweld â'r ysgol i drafod cynnydd disgyblion a sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

Mae'r ysgol yn gweithio gydag athrawon arbennigol y Sir i gynnig darpariaeth safonol ar gyfer bob disgybl:

### AR DDIWEDD TYMOR YR HAF 2022

26 disgybl ar y gofrestr ADY (10%)

- Datganiadau: 15
- Gweithredu ysgol a mwy: 8
- IDP newydd: 2
- IDP wedi trosglwyddo o GY+: 2



Trip ola' criw Bl 6 i'r Bae

## YMYRAETHAU

**CYFNOD ALLWEDDOL 2:**

- Mathemateg: Maths Factor
- Llythrennedd Cymraeg: Darllen dwys
- Llythrennedd Saesneg: Rainbow Reading, Nessy
- Dealltwriaeth iaith a lleferydd: Junior Language Link, Speech Link
- Llythrennedd emosiynnol: ELSA, Talkabout (Social Skills), Lego Therapy, Jelly Beans
- Sgiliau modur mawr a bach: Handwriting Motorway

**CYFNOD SYLFAEN:**

- Llythrennedd: Darllen Dwys, Tric & Chlic
- Iaith a lleferydd: Speech Link, Language Link
- Llythrennedd emosiynnol: ELSA, Talkabout (Sgiliau Cymdeithasol)
- Sgiliau modur mawr a bach: Handwriting Motorway

**Timoedd arbenigol sy'n cefnogi'r disgyblion yn yr ysgol:**

| Tîm | Nifer |
|---|---|
| Iaith, llafaredd a chyfathrebu | 5 |
| Llythrennedd a rhifedd | 15 |
| Cefnogaeth awtistiaeth | 7 |
| Iechyd a lles emosiynol | 15 |
| Nam golwg | 0 |
| Nam clyw | 0 |
| LACE | 10 |

## GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

Cynhaliwyd sawl clwb yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn:

- Clwb amlchwaraeon yr Urdd (bl 3 – 6)
- Clwb Hwyl a Sbri (Bl 1 & 2)
- Criw Cŵl (Bl 5 & 6)
- Clwb pêl-droed (Bl 5 & 6)
- Clwb rygbi (Bl 5 & 6)



## CYNGOR YSGOL A'R DREIGIAU

Mae Cyngor Ysgol Coed-y-Gof yn gymuned o blant sy'n cael eu hethol gan eu cyfoedion ar ddechrau pob blwyddyn. Prif nod y cyngor yw dod at ei gilydd i gynnig llais i bob plentyn yn yr ysgol. Bydd pob dosbarth o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 yn ethol un aelod, gydag aelodau Blwyddyn 6 yn cymryd cyfrifoldeb am gadeirio. Ar ddechrau'r flwyddyn, bydd aelodau'r cyngor yn penderfynu ar dargedau penagored a thrwy drafodaethau rhwng aelodau'r cyngor a'u dosbarthiadau, bydd camau'n cael eu cymryd i gyflawni targedau sy'n sicr o wella bywyd ysgol ein disgyblion. Cydlynwyd y Cyngor gan Mrs Aimee Meyer.

## LLAIS Y DYSGWR

Yn ogystal â'r fforwm drwy ei chynrychiolydd dosbarth, mae'r dysgwyr yn dylanwadu ar gynnwys y cwricwlwm wrth gymryd rhan lawn yn y cynllunio thematig ar ddechrau bob Tymor. Rho hwn ymdeimlad o barch a pherchnogaeth i'r disgyblion wrth iddynt ddilyn trywydd dysgu a luniwyd ganddynt hwy eu hun.

## IECHYD A DIOGELWCH

Mae diogelwch a lles ein disgyblion yn bwysicach nag unrhyw ystyriaeth arall. Mae'r Pennaeth neu aelod o'r Tîm Arwain ar ddyletswydd bob bore a phrynhawn i sicrhau diogelwch y disgyblion.

Mae staff ar ddyletswydd am 8:40yb gyda'r drysau a'r giatiau allanol yn cau am 8:55yb. Rhaid i unrhyw un sy'n cyrraedd yr ysgol ar ôl yr amser hwn fynd i'r dderbynfa i gofrestru. Mae cyfnodau dyletswydd staff yn dilyn patrwm tebyg yn ystod y dydd wrth oruchwylio'r neuadd a'r iard yn ystod amseroedd egwyl. Bydd aelod dynodedig o staff sydd â chymhwyster Cymorth Cyntaf ar gael ar gyfer pob amser egwyl.

# GWEITHGAREDDAU'R FLWYDDYN



- 01.09.21 YSGOL AR GAU – diwrnod cynllunio Covid
- 02–03.09.21 HMS
- 15–17.09.21 Trip preswyl Bl 5 i Abereiddi



- 20–24.09.21 Trip preswyl Bl 6 i Langrannog



- 29.09.21 Sesiynau "Cwrdd â'r Athro" (Rhithwir)
- 05.10.21 Ymweliad y Gwasanaeth Tân a bl 5 & 2
- 05.10.22 Cyfarfod Is–bwyllgor cyllid y Llywodraethwyr
- 19.10.21 Cyfarfod Llywodraethwyr
- 25–28.10.21 Clwb Bwrlwm yn yr Ysgol yn ystod gwyliau hanner Tymor
- 01.11.22 HMS – Ysgol ar gau i ddisgyblion
- 10.11.21 Ymweliad Ymgynghorydd Her, Meinir Howells
- 12.11.21 Bl6 Gwasanaeth Coffa, Dydd y Cofio, Mynwent y Gorllewin
- 19.11.21 Diwrnod Plant mewn Angen
- 24.11.21 Ymweliad Bl 3 & 4 a Chastell Caerdydd
- 29.11.21 Ymweliad Bl 5 & 6 a'r Senedd
- 01.12.21 Cyfnod Sylfaen – Coblynnod a'r Crudd, Theatr y Sherman
- 03.12.21 Bl6 Gweithdy Crucial Crew
- 07.12.21 Cyfarfod Llywodraethwyr
- 08.12.21 Brechliniau ffliw DD –Bl 6
- 13.12.21 Bl 6 Trip i Ŵyl y Gaeaf i sglefrio iâ
- 04–05.01.22 Ysgol ar gau – diwrnodau cynllunio Covid

- 10.01.22 Bl 6 Gwersi seiclo
- 11.01.22 Ymweliad Ymgynghorwyr Her, Meinir Howells a Carys Amos
- 14.01.22 Ymweliad Bl 3 & 4 i Techniquest – Sioe'r Gofod
- 17.01.22 Bl 5 Gwersi seiclo
- 25.01.22 Ysgol gyfan yn cymryd rhan i greu record byd yn canu "Hei, Mistar Urdd" gyda'r Urdd
- 01.02.22 Is-bwyllgorau Llywodraethwyr – Iechyd & Diogelwch; Cwricwlwm
- 04.02.22 Dydd Miwsig Cymru
- 08.02.22 Is-bwyllgor Cyllid
- 10.02.22 Ymweliad Swyddog Iechyd & Diogelwch, Cerys Adams-Jones
- 14.02.22 Ymweliad gan Jennie Hughes, Pennaeth Cynhwysiant
- 18.02.22 YSGOL AR GAU – Storm Eunice
- 21-24.02.22 Clwb Bwrlwm yn yr Ysgol yn ystod gwyliau hanner Tymor
- 01.03.22 Eisteddfod Ysgol
- 10.03.22 Ymweliad Bl6 â Pwll Mawr
- 10.03.22 Cyfarfod Is-bwyllgor Cyllid
- 12.03.22 Eisteddfod Cylch yr Urdd
- 15.03.22 Cyfarfod Llywodraethwyr
- 28.03.22 Cyfarfod Is-bwyllgor Iechyd & Diogelwch





- 30.03.22 Eisteddfod Dawns yr Urdd
- 05.04.22 Ymweliad Ymgynghorydd Her, Meinir Howells
- 06.04.22 Twrnament Rygbi merched a
- 08.04.22 HMS Ysgol ar gau
- 28.04.22 Ymweliad Swyddog Iechyd & Diogelwch, Cerys Adams-Jones
- 03.05.22 Cyfarfod ALNCo clwstwr yn yr



- 04.05.22 Cyfarfod Is-bwyllgor Cyllid
- 06.05.22 Diwrnod "Sblash!" y Cyfnod Sylfaen
- 06.05.22 Gweithdy Celf Bl 5 & 6
- 10.05.22 Twrnament Pêl-droed yr Urdd (merched)
- 12.05.22 Twrnament Pêl-droed yr Urdd (cymysg)
- 13.05.22 Gwasanaeth a gweithdy i fl 5 & 6 gan Dŵr Cymru
- 13.05.22 Cyfarfod Penaethiaid Cymraeg Caerdydd
- 18.05.22 Ymweliad Ymgynghorydd Her, Carys Amos
- 20.05.22 Diwrnod Seren & Sbarc
- 23-27.05.22 Wythnos Iechyd & Lles
- 24.05.22 PCSO Mirain Davies gwethdy gyda Bl 5&6 – Diogelwch arlein
- 24.05.22 Trip y Cyfnod Sylfaen i Fae Caerdydd



- 30.05–01.06.22 Clwb Bwrlwm yn yr Ysgol yn ystod gwyliau hanner Tymor
- 06.06.22 Ysgol ar gau oherwydd Gŵyl Banc y Jiwbilî
- 07.06.22 Staff Plasmawr yn arwain Gwasanaeth Bl 6
- 14.06.22 Gweithdy "Dangoswch y cerdyn coch i hiliaeth" Bl 5 & 6
- 16.06.22 Bl 6 Sesiwn 1 pontio Plasmawr – Parch, Parodwrwydd, Perthyn
- 17.06.22 Lluniau ysgol – dosbarthiadau a thimoedd
- 17.06.22 PC Mirain Davies yn cynnal Gwasanaeth i Fl 2 – gwrth fwlio
- 18.06.22 Disgyblion yn perfformio yng ngŵyl Tafwyl
- 23.06.22 Disgyblion MAT Mathemateg yn mynychu gweithdy clwstwr Plasmawr
- 28.06.22 Bl 6 Sesiwn 2 pontio Plasmawr – Meysydd Dysgu a Phrofiad Cwricwlwm i Gymru
- 29.06.22 HMS Clwstwr Plasmawr – Cwricwlwm i Gymru
- 04.07.22 Pythefnos o wersi nofio i fl 4
- 04.07.22 Mabolgampau Bl 3 – 6
- 06.07.22 Bl 6 Sesiwn 3 pontio Plasmawr – Celfyddydau Mynegiannol
- 08.07.22 Athrawon rhifedd Plasmawr yn cynnal gwersi gyda disgyblion Bl 6
- 11.07.22 Bl 6 Sesiwn 4 pontio Plasmawr – Mabolgampau
- 11.07.22 Bl 4 & 5 – Twrnament rygbi cyffwrdd, Traeth y Bari
- 14.07.22 Trip ffarwel Bl 6 – Bae Caerdydd
- 15.07.22 Prom Bl 6 – Clwb Rygbi Crwydwyr Morgannwg



- 18.07.22 Trip Bl 5 & 6 i Ynys y Bari
- 19.07.22 Trip Bl 3 & 4 i Ynys y Bari
- 20.07.22 Trip y Cyfnod Sylfaen i Mountain View Ranch
- 21.07.22 Sioe gadael Bl 6
- 22.07.22 HMS – Ysgol ar gau i ddisgyblion






PIC·COLLAGE



